Mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r bobl fwyaf bregus sy'n wynebu'r trafferthion ariannol mwyaf, ac y gall effaith dyledion mawr ar les unigolion a'u teuluoedd fod yn negyddol ac yn hirdymor. Targedu cyngor a chymorth ar gyfer y rhai mwyaf anghenus yw prif nod y Gronfa Gyngori Sengl, ac mae ei model cydweithredol yn profi'n effeithiol. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nododd 83% o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl eu bod yn perthyn i un o'r grwpiau yn y boblogaeth sy'n cael eu taro waethaf gan yr argyfwng costau byw, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, a phobl o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Trwy gynnal y cyllid grant ar gyfer y Gronfa Gyngori Sengl yn 2023-24, gall Llywodraeth Cymru fod yn hyderus y bydd ei gwasanaethau cyngori a chymorth yn cyrraedd pobl fregus sydd eu hangen fwyaf.

Mae rhanddeiliaid wedi nodi tuedd bryderus ymhlith pobl sy'n gofyn am gyngor am ddyledion. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd â chyllideb ddiffygiol (nad yw incwm eu haelwyd yn ddigon ar gyfer eu gwariant hanfodol). Er enghraifft, dywedodd elusen ddyledion StepChange ym mis Hydref 2022 fod hyn yn wir am un o bob tri o'u cleientiaid newydd¹². Mae Adolygiad Cyngor ar Bopeth Cymru o Gostau Byw 2022¹³ yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfran y bobl sy'n gofyn am gyngor ynghylch cyllidebau negyddol wedi cynyddu o 39% yn 2019-20 i bron 50% yn 2022. Ymhlith y rhai sy'n fwy tebygol o fod â chyllideb negyddol mae pobl sengl (gan gynnwys rhieni sengl), rhentwyr preifat a phobl anabl neu sydd â chyflwr iechyd hirdymor.

Mae'r opsiynau sydd ar gael i bobl â chyllideb ddiffygiol yn ymwneud â dileu dyled, o bosibl drwy Orchymyn Rhyddhau o Ddyled. Er bod gorchymyn o'r fath yn datrys problemau uniongyrchol y ddyled, ni fydd yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, ac felly gall dyledion newydd gronni, a gall pobl y dyfernir Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled ar eu cyfer ei chael yn anodd cael credyd fforddiadwy. Mae cyllidebau diffygiol yn effeithio ar aelwydydd ledled y DU, a bydd angen mewnbwn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Ddatganoledig er mwyn creu atebion cynaliadwy i'r broblem.

¹⁰ Resolution Foundation - [The Living Standards Outlook 2023](#)

¹¹ [The cost-of-living support won't prevent a bleak Christmas for many | by Jonny Tatam-Hall | Dec, 2022 | We are Citizens Advice](#)


¹² [Making Ends Meet. Our Client Research. StepChange](#)

¹³ [2022 in review: Citizens Advice Cymru cost of living dashboard | Flourish](#)

Mae dyledion yn gwneud i effaith siociau economaidd, fel y rhai a ddaeth yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw, barhau. Tra bo eraill yn gallu dod dros problemau ariannol, mae'r rhai sydd mewn dyled yn parhau i ddiodes.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi mapio'r prif broblemau o ran dyled sy'n wynebu pobl ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru fesul chwarter ariannol. Mae Ffigur 1 yn dangos bod y math mwyaf cyffredin o ddyled wedi newid. Yn Ch3 2019-20, dyledion cardiau credyd a siopau oedd y rhai mwyaf, ond erbyn Ch3 2022-23 dyledion ynni oedd waethaf wrth i gostau godi.

Ffigur 1 - Y mathau mwyaf cyffredin o ddyled y rhoddodd Cyngor ar Bopeth help i bobl yn eu cylch fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru



Ffynhonnell: [Citizens Advice - Cost of living dashboard](#)

Yn ôl Cyngor ar Bopeth¹⁴, er bod lefel y galw, yn enwedig ynghylch dyledion credyd cwsmeriaid, yn parhau i fod yn is na lefelau cyn y pandemig, yn ystod 2022 maent wedi gweld cynnydd sydyn yn y galw am gyngor ar ddyledion biliau cartref, megis biliau ynni ac ôl-ddyledion rhent.

Mae arolwg blynyddol 2022 y Gwasanaeth Arian a Phensiynau¹⁵ yn amcangyfrif bod 15% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru yn dangos arwyddion o fod mewn angen dybryd am gyngor ynghylch eu dyledion. Y ganran yn 2021 oedd 14.5%.

Mae canlyniadau cipolwg Sefydliad Bevan ar dlodi yng Ngaeaf 2023¹⁶ yn dangos bod 13% o bobl yng Nghymru wedi bod mewn dyled ar fil am fwy na mis ym mis Ionawr. Nid yw'r ffigur hwn yn dangos unrhyw gynnydd sylweddol yn nifer y bobl a ddywedodd eu bod mewn dyled yn adroddiad Hydref 2022. Mae Sefydliad Bevan yn nodi, er nad yw ei ddata yn caniatáu ar gyfer dadansoddi graddau dyled pobl, mae'n bosibl, er bod y prif ffigurau o ran nifer y bobl sydd mewn dyled wedi parhau'n weddol debyg, fod swm dyled pobl wedi cynyddu.

A'r hinsawdd economaidd sydd o'n blaen yn ansicr, rydym yn rhagweld y bydd y galw am wasanaethau cynghori, yn enwedig gwasanaethau cyngor ar ddyledion a sut i fanteisio i'r eithaf ar yr incwm sydd ar gael, yn parhau i gynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

¹⁴ [2022 in review: Citizens Advice Cymru cost of living dashboard](#)

¹⁵ [Need for debt advice and how households are reacting to changes in the cost of living | Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau \(maps.org.uk\)](#)

¹⁶ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

Er y bydd y Gronfa Gyngori Sengl – a'i chefnogaeth ychwanegol, sy'n sicrhau bod achosion sylfaenol dyledion yn cael eu taclo – yn helpu gyda rhywfaint o'r galw cynyddol drwy leihau'r angen i bobl barhau i ddychwelyd am gyngor, ni ellir disgwyl iddi allu mynd i'r afael â'r holl alw.

Cymorth Llywodraeth Cymru

Eleni rydym wedi darparu cymorth gwerth £1.6 biliwn, drwy raglenni sy'n gwarchod aelwydydd difreintiedig a mentrau sy'n helpu i ddarparu'r cyflog cymdeithasol yng Nghymru, gan gadw arian ym mhocedi pobl. Rydym yn targedu'r gefnogaeth lle mae ei hangen fwyaf.

Help gyda chostau ynni

Yn ôl ffigurau tloidi tanwydd diweddaraf Cymru, a gyhoeddwyd ar 13 Ebrill 2022, amcangyfrifwyd bod 196,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tloidi tanwydd ym mis Hydref 2021 - sy'n cyfateb i 14% o aelwydydd. O ddefnyddio'r ffigurau hyn i fodelu effaith cap Ebrill 2022 ar brisiau, amcangyfrifir y gallai hyd at **45% (614,000)** o bob aelwyd fod mewn tloidi tanwydd ac 8% (115,000) mewn tloidi tanwydd difrifol.

Dro ar ôl tro, rydym wedi codi pryderon bod y system ragdalau yn annigonol ar gyfer y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas ar hyn o bryd. Hyd yma eleni, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cwrdd â chyflenwyr ynni ar 23 Ionawr, ac â swyddogion Ofgem ar 30 Ionawr yn mynegi pryderon difrifol ynghylch nifer y gwarantau llys a roddwyd gan lysoedd ynadon, ac yn ceisio sicrwydd bod gan Ofgem y pwerau digonol i warchod aelwydydd. Aethom ati i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 27 Ionawr yn tynnu sylw at risg glir o ran diogelwch a chyfiawnder cymdeithasol bod aelwydydd bregus, gan gynnwys y rhai â chyflyrau meddygol, yn cael eu gorfodi i fod ar fesuryddion rhagdalau yn erbyn eu hewyllys neu'n ddjarwybod. Anfonwyd llythyr arall ar 2 Chwefror yn pwysu ar Lywodraeth y DU, sydd â'r pŵer yn eu dwylo, i weithredu ar frys.

Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ddod â'r arfer annerbyniol o orfodi pobl i gael mesuryddion rhagdalau i ben, ac i gryfhau'r rheolau a'r rhwymedigaethau ar gyflenwyr i sicrhau eu bod yn cefnogi eu cwsmeriaid, yn hytrach na'u cosbi.

Rydym wedi darparu £90 miliwn i redeg ail Gynllun Cymorth Tanwydd ar ran Llywodraeth Cymru yn 2022-23. Lanswyd y cynllun hwn ar 26 Medi, ac ehangwyd y meini prawf cymhwysedd i gefnogi mwy o aelwydydd. Mae'r meini prawf newydd ar gyfer 2022-23 yn golygu bod tua 400,000 o aelwydydd yn gymwys. Hyd yma, mae awdurdodau lleol wedi cefnogi dros 307,000 o aelwydydd gyda thaliad o £200 tuag at eu costau tanwydd. Drwy gynllun 2021-22 elwodd 166,000 o aelwydydd.

Mae cyllid o £4m hefyd wedi cyfrannu at gyflwyno cynllun Talebau Tanwydd a Chronfa Wres, i helpu aelwydydd ar fesuryddion rhagdalau a'r rheiny nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith nwy sy'n cael trafferth talu ymlaen llaw am eu tanwydd ac sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu. Hyd at ddiwedd Rhagfyr roedd y Sefydliad Banc Tanwydd wedi cyhoeddi 5,500 o dalebau i gefnogi'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio ychwanegu at eu mesuryddion rhagdalau - gan gefnogi dros 14,377 o bobl.

Tan ddiwedd Mawrth 2023 mae cymorth ariannol hefyd ar gael drwy ein Cronfa Cymorth Dewisol ar gyfer aelwydydd nad ydynt ar y grid, ac nad ydynt yn gallu fforddio eu

cyflenwad nesaf o olew neu LPG oherwydd caledi ariannol eithafol. Bydd hyn yn helpu'r aelwydydd hynny â hyd at £250 am daliad olew untro neu hyd at dri thaliad o £70.

Rydym hefyd wedi dyrannu £1 miliwn i awdurdodau lleol i'w cefnogi i ddatblygu hybiau cynnes.

Mynd i'r afael â thlodi bwyd

Mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi dweud bod banciau bwyd ei rhwydwaith yng Nghymru wedi dosbarthu 77,000 o barseili bwyd brys rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022, gan gynnwys 28,000 o barseili i blant. Mae hyn yn gynydd o 38% yng nghyfanswm y parseili a gafodd eu dosbarthu o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22, ac yn gynydd o 96% ers 2017/18. Yn 2022/23, bu'n rhaid i'w banciau bwyd ledled Cymru brynu teirgwaith yn fwy o fwyd nag a wnaethant yn y cyfnod cyfatebol yn 2021/22 (cynydd o 228%). 9% o'r bwyd a ddaeth i mewn ar gyfer banciau bwyd Cymru yn 2022/23 oedd canran y bwyd wedi'i brynu o'i gymharu â 4% yn 2021/22.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £15.9 miliwn i fynd i'r afael â thlodi bwyd ers 2019. Yn 2022-23 mae £4.9m wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Mae hyn yn cynnwys £2.5m i gefnogi a chryfhau banciau bwyd, partneriaethau bwyd cymunedol a hybiau cymunedol, gan eu cefnogi i fynd i'r afael â thlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd a darparu ystod ehangach o wasanaethau i helpu unigolion ac aelwydydd i fanteisio i'r eithaf ar yr incwm sydd ar gael iddynt. Mae £2.4m arall wedi cael ei ddyrannu i gefnogi datblygiad partneriaethau bwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi rhieni plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i sicrhau nad ydynt yn llwgu yn ystod gwyliau'r ysgol. Daw hyn â'n buddsoddiad cyfan yn y cynllun i dros £100 miliwn.

Help gyda chostau byw

Darparwyd taliad costau byw o £150 i bob aelwyd ym mandiau treth gyngor A i D, ac i bob aelwyd sy'n derbyn cymorth Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mhob band. Rhoddwyd y taliad i 96% o aelwydydd cymwys ledled Cymru i'w helpu gyda chostau cynyddol. Talwyd £146.6m i 977,483 o aelwydydd cymwys cyn i'r prif gynllun ddod i ben ar 30 Hydref.

Cafodd £25m arall ei glustnodi i awdurdodau lleol ar ffurf cronfa ddewisol. Mae gan awdurdodau lleol tan ddiwedd Mawrth 2023 i ddarparu'r cyllid ychwanegol hwn y maent yn ei dargedu i helpu aelwydydd sy'n ei chael yn anodd.

Yn ogystal, mae yna amrywiaeth o bolisïau gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu i gadw arian ym mhocedi pobl – rydym yn galw hwn yn gyflog cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Cynnig Gofal Plant – 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn
- Prydau ysgol am ddim (cynllun sy'n cael ei ehangu i ysgolion cynradd o fis Medi 2022) a brecwast ysgol am ddim
- Presgripsiynau am ddim
- Help gyda chostau iechyd
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- Cynllun PDG – Mynediad

Manteisio i'r eithaf ar yr incwm sydd ar gael

Rydym wedi lansio trydedd ymgyrch i annog pobl i fanteisio ar fudd-daliadau, sef [Yma i Helpu](#). Drwy ein dwy ymgyrch flaenorol gwelwyd dros 8,000 o bobl yn ymateb i'r alwad i gysylltu ag Advicelink Cymru, a chawsant gymorth i hawlio dros £2.7m o incwm ychwanegol.

Rydym yn parhau i gefnogi rhaglen hyfforddiant i weithwyr rheng flaen er mwyn cynnig mwy o gyngor a chefnogaeth ar fudd-daliadau lles i ddefnyddwyr gwasanaethau. Eleni mae dros £11m wedi ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau Cronfa Gyngori Sengl Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn achubiaeth i bobl sy'n cael trafferth i dalu eu costau byw, gan eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr incwm sydd ar gael iddynt a delio â'u dyledion. Ers mis Ionawr 2020, mae gwasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl wedi helpu 144,000 o bobl i ddelio â dros 660,000 o broblemau lles cymdeithasol. Cefnogwyd pobl i hawlio incwm ychwanegol o £83 miliwn, a dilëwyd dyledion gwerth £23 miliwn.

Mae llawer o fenthycwyr fforddiadwy, gan gynnwys Undebau Credyd Cymru, wedi ymgorffori cyfrifiannellau budd-daliadau i'w tudalennau benthycyca ar-lein. Mae'n bwysig ein bod yn achub ar bob cyfle i helpu pobl i gael yr hyn y mae ganddynt hawl iddo, a byddwn yn ymgorffori cyfrifiannell i wefan Llywodraeth Cymru cyn hir, fel y bydd pawb sy'n chwilio am gymorth ariannol drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol ac ymgyrch Yma i Helpu yn cael eu hannog i wneud ymholiadau drostynt eu hunain a chymryd camau i wella eu sefyllfa ariannol.

Rydym yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau undebau credyd, yn enwedig ymhlith pobl fregus a grwpiau risg. Mae'r data a ddadansodwyd yn datgelu llwyddiant yr ymgyrch, a chynnydd sylweddol mewn defnyddwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd. Gwnaed 4,414 o ymholiadau drwy wefan Undebau Credyd Cymru am fenthyciadau undebau credyd.

Rydym wedi darparu £1.2m yn 2022-23 i undebau credyd ehangu eu benthyciadau i bobl â hanes credyd gwael, y byddai undeb credyd yn gwrthod benthyciad iddynt fel arall oherwydd y risg o fethu ag ad-dalu, ac a fyddai'n debygol iawn o ddefnyddio darparwyr credyd cost uchel, neu'n waeth, fenthycwyr arian didrwydded. Mae'r cynllun hwn yn cael effaith, ac mae mwy na 1000 o bobl yn benthycyca o undeb credyd am y tro cyntaf bellach. Mae'r cynllun yn gweithio law yn llaw â'r ymgyrchoedd yr ydym wedi'u hariannu i godi ymwybyddiaeth o undebau credyd.

Mae £1m hefyd wedi'i ddyrannu i dreialu Cynllun Benthyciadau Di-log yn 2022-23 sy'n cael ei arwain gan Fair 4 All Finance. Mae'r bartneriaeth rhwng Purple Shoots, Banc Cymunedol Robert Owen a'r benthycwr ar-lein, Plend, nawr yn darparu'r benthyciadau di-log yng Nghymru. Mae'r peilot hwn yn cael ei brofi ar hyn o bryd, a'r bwriad yw gwneud gwaith pellach i gynyddu'r benthycyca dros y misoedd nesaf. Atgyfeirir pobl i'r cynllun drwy gyfrwng benthycyca a gynigir gan Plend, a gallai pobl sy'n methu gwiriadau fforddiadwyedd gyda'r benthycwr cyfrifol hwn fod yn addas am fenthyciad di-log os gallant fforddio i ad-dalu benthyciad heb y llog. Dros y blynyddoedd nesaf bydd y peilot hwn yn profi p'un a yw benthyciad di-log yn gynaliadwy, a bydd yn ategu'r gwaith y mae undebau credyd yn ei wneud i helpu pobl i gael credyd fforddiadwy.

Rydym yn awyddus i ymchwilio i sut y gall y sector cyngori nid-er-elw, undebau credyd a phartneriaid perthnasol eraill weithio gyda'i gilydd i gefnogi buddiannau gorau eu cleientiaid sy'n wynebu dyledion.

Mae'r gwaith ymchwil¹⁷ yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl sy'n ariannol fregus mewn perygl o gael eu gyrru i fenthyca gan fenthycwyr anghyfreithlon yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Rydym yn gweithio gydag Atal Siarcod Benthycg Arian Cymru i nodi graddfa'r benthyca anghyfreithlon sy'n digwydd yng Nghymru wrth i bobl geisio ymdopi â'r argyfwng costau byw.

Rydym yn cefnogi Atal Siarcod Benthycg Arian Cymru i godi ymwybyddiaeth o fenthyca anghyfreithlon yn ein cymunedau, ac i godi ymwybyddiaeth o opsiynau eraill, gan gynnwys benthycwyr fforddiadwy a chyfrifol megis undebau credyd.

Dadansoddiad o'r effaith

Mae'r dadansoddiad o gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn dangos ei bod yn targedu'r rhai sydd angen help fwyaf. Mae disgwyl i tua 75% o aelwydydd gael eu cefnogi mewn rhyw ffordd, ond bydd bron i ddwywaith cymaint yn mynd i aelwydydd yn hanner isaf y dosbarthiad incwm o'i gymharu â'r rhai yn yr hanner uchaf, a thair gwaith cymaint i'r rhai yn y pumed isaf o'i gymharu â'r rhai yn y pumed uchaf¹⁸.

Mae gwaith ymchwil i effaith barhaus ein hymadawiad â'r UE a'r argyfwng costau byw ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig wedi'i nodi'n flaenoriaeth allweddol i'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb. Mae rhywfaint o waith asesu cychwynnol wedi'i wneud ac mae trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau 2023.

Mae'r pecynnau cymorth costau byw yn cael effaith. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2022, nododd gwasanaethau Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru bod 15% yn llai o bobl yn gofyn am gyngor ar ddyledion biliau ynni a 12% yn llai yn gofyn am dalebau banciau bwyd. (Cafwyd gostyngiadau tebyg pan dalwyd y taliad costau byw cyntaf i bobl sy'n derbyn budd-daliadau fel Credyd Cynhwysol ym mis Mehefin 2022). Byrhoedlog fu'r effaith yn anffodus, a nododd gwasanaethau Cyngor ar Bopeth eu cyfnod prysuraf erioed ym mis Rhagfyr 2022 o ran cefnogi pobl yng Nghymru i gael cymorth brys.

Mae Is-bwyllgor Costau Byw y Cabinet yn tynnu ynghyd bobl â phrofiad bywyd, arbenigwyr, darparwyr gwasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n ei chael yn anodd talu costau cynyddol, er mwyn helpu i ddarparu cyfeiriad strategol a llywio ein hymateb i'r argyfwng. Mae hyn yn ategu'r cydweithio ar draws portffolios i sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y bobl sydd ei angen fwyaf.

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023/24

Mae'r Gyllideb Ddrafft wedi'i llunio mewn cyfnod caled ar gyfer cyfnod caled. Mae'n adlewyrchu cyfyngiadau ein setliad cyllid ond nid ein diffyg uchelgais. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, a'r realiti anffodus oedd nad oeddem yn gallu ymateb i'r holl bwysau a nodwyd i gefnogi ymyriadau costau byw o fewn y cyllid a oedd ar gael.

¹⁷ [Siarcod Arian Anghyfreithlon Yn Cymryd Mantais Ar Bwysau Costau Byw - Stop Loan Sharks Wales : Stop Loan Sharks Wales](#)

¹⁸ [Ymateb i'r argyfwng costau byw: dadansoddiad dosbarthiadol \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Er gwaethaf hyn, cymerwyd camau i sicrhau effaith fwyaf bosibl yr adnoddau sydd ar gael inni, gan gydbwysu'r anghenion tymor byr sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw presennol â pharhau i wneud newidiadau mwy hirdymor a chyflawni uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi.

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn cynnwys £18.8m ychwanegol i barhau â'r gefnogaeth ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn 2023-24. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu'r cymorth hanfodol hwn, sy'n golygu bod mwy o bobl yn cael cymorth ariannol brys pan fydd ei angen arnynt. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn ogystal â chymorth ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac yn rhan o'n peilot Incwm Sylfaenol.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

20 Chwefror 2023

Annwyl Jenny,

Cytundeb rhwng y DU a'r Eidal ar gydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 13 Chwefror 2023, fe wnaethom ystyried y cytundeb rhwng y DU a'r Eidal ar gydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid.

Mae'r cytundeb yn rhoi'r hawl i ddeiliaid trwydded y DU sydd eisoes yn preswyllo yn yr Eidal, neu a ddaw yn breswylwyr yno yn y dyfodol, gyfnewid eu trwydded yrru ar gyfer y DU heb fod angen sefyll prawf gyrru ymarferol neu brawf theori pellach. O dan y cytundeb hwn, byddai'r un driniaeth yn gymwys i ddeiliaid trwydded o'r Eidal sydd eisoes yn preswyllo yn y DU, neu a ddaw yn breswylwyr yn y DU yn y dyfodol. Yn flaenorol, cyfraith yr UE oedd yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru rhwng y DU â'r Eidal. Daeth y trefniant hwn i ben pan ymadawodd y DU â'r UE.

Yn ystod ein hystyriaeth fe wnaethom gytuno i dynnu eich sylw at y cytundeb, i lywio gwaith monitro eich Pwyllgor o hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Cafodd ein hadroddiad ar y cytundeb ei osod heddiw.

Yn gywir

Huw

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd





Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr 2022 at y Prif Weinidog ynglŷn â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth, rwyf wedi ystyried cais pellach y Pwyllgor Cyllid.

Byddaf yn rhoi ymrwymiad y bydd pob un o Weinidogion Cymru yn ymdrechu i ymateb i Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Cyllid ar gyfer Biliau'r Senedd cyn y cynhelir y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil hwnnw.

Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor Cyllid nodi wrth roi'r ymrwymiad hwn, bydd achosion yn codi pan na fydd y manylion y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdanynt ar gael yn hawdd o fewn yr amser hwnnw.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i ddilyn gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n pennu mai nod y penderfyniad ariannol yw ceisio cytundeb ar oblygiadau ariannol unrhyw Fil nid fel y'i cyflwynwyd, ond fel y'i diwygiwyd ar ôl cwblhau'r broses graffu. At hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i roi manylion i'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau sy'n craffu ar bolisi pan fo datblygiadau wedi bod neu ddiwygiadau wedi cael eu gwneud sy'n arwain at newidiadau sylweddol i oblygiadau ariannol pob Bil.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried ymhellach unrhyw oblygiadau sy'n deillio o symud y ddadl penderfyniad ariannol i wythnos ar ôl y ddadl Egwyddorion Cyffredinol, a'r effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr ynghyd â'r ymateb hwn at bob un o Weinidogion Cymru. Anfonir yr ymateb hwn at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgorau Polisi hefyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

19 Rhagfyr 2022

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Diolch am eich llythyr dyddiedig **7 Rhagfyr**, a anfonwyd gennych mewn ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd i'r arfer o ddarparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 gan bwyllgorau cyn i'r ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal.

Mae'n siomedig nad ydych yn gallu rhoi ymrwymiad mewn perthynas â'r cais rhesymol hwn. Rydych yn dweud yn eich llythyr: "Yn ystod dadl Cyfnod 1 y mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad Pwyllgor". Fodd bynnag, rydym o'r farn na ddylid ystyried y dull hwn yn arfer cyffredin, gan nad yw bob amser yn bosibl i Weinidogion ddarparu ymateb llawn a thrylwyr i bob argymhelliad, o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael yn ystod y ddadl ei hun. Fel y nodais yn fy llythyr cychwynnol, yr arfer safonol yw bod y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol yn cael ei drafod yn syth ar ôl cytuno ar y cynnig Cyfnod 1. Felly, ychydig iawn o amser sydd gan y Senedd i ystyried ymateb y Llywodraeth cyn gorfod gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo adnoddau.

Rydych hefyd yn nodi'r posibilrwydd y bydd amgylchiadau pan fo angen mwy o amser i ystyried rhai argymhellion neu pan nad yw'r manylion sydd eu hangen i ddarparu ymateb cyflawn ar gael cyn cynnal dadl Cyfnod 1. O ystyried bod yr amserlenni ar gyfer Biliau'r Llywodraeth yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru, gyda'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ar y dyddiadau cau ar gyfer Cyfnodau 1 a 2, dylid ystyried rhoi'r gorau i'r arfer o bleidleisio ar y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol ar yr un diwrnod â'r ddadl Cyfnod 1. Gwnaed penderfyniad tebyg yn y Pedwerydd Cynulliad, gan wrthdroi'r sefyllfa ddiodyn er mwyn gohirio'r bleidlais ar y cynnig Cyfnod 4 hyd nes bod wythnos wedi mynd heibio ar ôl i'r trafodion Cyfnod 3 ddod i ben, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau drafod



fersiwn derfynol o'r Bil cyn gofyn i'r Senedd ei chymeradwyo. Rydym o'r farn y dylai'r un egwyddor fod yn berthnasol i'r cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol. Byddai hyn yn rhoi amser i'r Aelodau fyfyrion ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Rydym o'r farn bod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nad oes gan y Senedd unrhyw gyfleoedd pellach i ystyried goblygiadau ariannol Biliau yn ffurfiol ar ôl i'r cynnig gael ei gytuno.

Yn olaf, rydych yn nodi y gallai deddfwriaeth "fod yn fath newydd o ddeddfwriaeth", ac y gallai fod "sefyllfaoedd lle mae sawl ffactor amrywiol yn golygu nad oes modd cyfrifo costau manwl nes bod y ddarpariaeth yn cael ei phrofi a'i hasesu". Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru beidio â cheisio cyfrifo costau posibl deddfwriaeth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn arf allweddol o ran asesu'n feirniadol yr ystod o ddulliau a archwiliwyd mewn perthynas â datblygu cynnig deddfwriaethol, ac o ran darparu dull o wneud penderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cydnabod y ffaith na fydd yn bosibl darparu "costau manwl" bob amser. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion, a hynny er mwyn ein galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil – pwynt y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud droeon.

Rydym yn gresynu'r ffaith ei bod yn ymddangos bod yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sydd wedi cael eu cyhoeddi gyda'r Biliau a gyflwynwyd hyd yma yn y Senedd hon yn rhyw fath o "sgil-gynnyrch" yn y broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na'r offeryn sy'n llywio'r broses honno. Mae'r Bil diweddaraf a drafodwyd gennym, sef y Bil Amaeth (Cymru), yn Fil fframwaith, lle mae cyfran sylweddol o'r costau yn ymwneud â'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy – cynllun na fydd yn cael ei gwblhau tan y flwyddyn nesaf. Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai'r Senedd gytuno yn y pen draw ar Benderfyniad Ariannol ar gyfer Bil, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd adeg ei gyflwyno, ond a allai gynyddu'n sylweddol yn dilyn hynny. Mae'r diffyg eglurder hwn yn gwneud ein rôl fel Pwyllgor Cyllid yn un heriol iawn, ac yn amharu'n sylweddol ar ein gallu i wneud penderfyniad ynghylch a yw costau'n rhesymol ai peidio.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cynnwys gwybodaeth anghyflawn neu annigonol, ni fyddai gan y Pwyllgor lawer o ddewis ond gorfodi Gweinidogion i ailymddangos gerbron y Pwyllgor unwaith y byddai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael, a hynny er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn destun gwaith craffu cadarn.

Fel y gwyddoch, mae nifer o bwyllgorau'r Senedd wedi codi pryderon tebyg ynghylch prydlondeb ymatebion Llywodraeth Cymru cyn cynnal dadleuon Cyfnod 1. Mae hyn yn creu darlun anffodus, ac yn codi cwestiynau ynghylch



ysbryd y gwaith ymgysylltu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r Senedd mewn perthynas â materion deddfwriaethol. Felly, rwyf yn gofyn i chi fyfyrion ar y materion uchod ac i ailystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch darparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid cyn y cynhelir dadleuon Cyfnod 1, ac i ystyried cyflwyno'r cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol o leiaf wythnos ar ôl i ddarpariaethau Cyfnod 1 gael eu cytuno. O ystyried y pwysau ar gyllidebau cyhoeddus, mae'n bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder a sicrwydd â phosibl cyn gofyn i Aelodau awdurdodi gwariant sy'n gysylltiedig â Biliau.

Gan fod y materion hyn yn berthnasol i gylchoedd gwaith holl bwyllgorau'r Senedd, mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon